OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 92

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

Gwnaed	*23 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*2 Mehefin 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 92

The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2026

Made	*23 March 2026*
Coming into force	*2 June 2026*

£8.90

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 92

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1073 (Cy. 241)) ("Rheoliadau 2020") yn llywodraethu'r modd y darperir gwasanaethau fferyllol fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru o dan Ran 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2020 mewn perthynas â'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol, yn benodol i ddarparu ar gyfer dileu gofynion goruchwylio penodol er mwyn bod yn gyson â Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (O.S. 2012/1916) a Deddf Meddyginiaethau 1968 (p. 67) (rheoliad 2(3)(e) ac (g)) ac maent yn nodi gofyniad newydd ar gyfer darparu gwybodaeth am y gweithlu i Fyrddau Iechyd Lleol (rheoliad 2(3)(h)).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 2020 i gywiro gwallau o natur dechnegol (rheoliad 2(2), (3)(a) i (d), (3)(f) a (4)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar https://www.llyw.cymru.

2026 Rhif 92

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

Gwnaed	*23 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*2 Mehefin 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 15, 80 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Mehefin 2026.

Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(**3**) (dehongli), ym mharagraff (1), yn y diffiniad o "Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig", yn lle "Iechyd a Gofal Digidol Cymru" rhodder "GIG Lloegr".

(3) Mae Atodlen 5 (telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol, yn benodol drwy ddarparu cyffuriau) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 4 (gwasanaethau gweinyddu), yn y testun Cymraeg—

(i) ar ôl "gyfarpar", yn lle "offthalmig rhestredig" rhodder "rhestredig offthalmig", a

(ii) ar ôl "feddyginiaeth", yn lle "offthalmig restredig" rhodder "restredig offthalmig",

(b) ym mhennawd paragraff 5A(**4**) (gweinyddu cyfarpar offthalmig rhestredig a meddyginiaethau offthalmig rhestredig sydd wedi eu harchebu gan optometryddion cymhwysol), yn y testun Cymraeg—

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196) ac O.S. 2025/285 (Cy. 57); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**3**) Mae offerynnau diwygio, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 5A gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196), ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2025/285 (Cy. 57).

(i) ar ôl “cyfarpar”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “rhestredig offthalmig”, a

(ii) ar ôl “meddyginiaethau”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “rhestredig offthalmig”,

(c) ym mharagraff 5A(1), yn y testun Cymraeg—

(i) ar ôl “gyfarpar”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “rhestredig offthalmig”, a

(ii) ar ôl “feddyginiaeth”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “restredig offthalmig”,

(d) ym mharagraff 5A(3), yn y testun Cymraeg—

(i) ar ôl “gyfarpar”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “rhestredig offthalmig”, a

(ii) ar ôl “feddyginiaeth”, yn lle “offthalmig rhestredig” rhodder “restredig offthalmig”,

(e) ym mharagraff 5A, hepgorer is-baragraffau (4) a (5),

(f) ym mharagraff 7(2)(b)(ii) (cyflenwi ar frys heb bresgripsiwn), yn lle “gwasanaeth TPE” rhodder “Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig”,

(g) ym mharagraff 9(**5**) (darparu cyffuriau neu gyfarpar a archebwyd), hepgorer is-baragraffau (2) a (3), ac

(h) ar ôl paragraff 39 (y Gymraeg) mewnosoder—

“Adrodd am y gweithlu

40.—(1) Rhaid i fferyllydd GIG ddarparu, i’r Bwrdd Iechyd Lleol y mae’r fferyllydd GIG wedi ei gynnwys yn ei restr fferyllol, unrhyw ddata am y gweithlu sy’n ofynnol, o bryd i’w gilydd, gan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â swyddogaethau’r Bwrdd.

(2) Rhaid cofnodi a chyflwyno’r data am y gweithlu ar yr adegau hynny yn ystod y flwyddyn ariannol a hysbysir i’r fferyllydd GIG gan y Bwrdd Iechyd Lleol.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr “data am y gweithlu” yw data, ar y ffurf ac yn y modd sy’n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, sy’n ymwneud ag unigolion sydd wedi eu cymryd ymlaen i ddarparu gwasanaethau fferyllol gan y fferyllydd GIG.”

(4) Mae Atodlen 6 (telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar GIG sy’n darparu gwasanaethau fferyllol drwy ddarparu cyfarpar yn unig) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) ym mharagraff 4(2)(b) (gweinyddu cyfarpar), yn lle “gwasanaeth TPE” rhodder “Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig”,

(b) ym mharagraff 6(2)(b) (cyflenwi ar frys heb bresgripsiwn), yn lle “gwasanaeth TPE” rhodder “Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig”, ac

(c) ym mharagraff 7(3)(c) (materion rhagarweiniol cyn darparu cyfarpar), yn lle “gwasanaeth TPE” rhodder “Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig”.

(**5**) Diwygiwyd paragraff 9(2) gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196).

Jeremy Miles
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
23 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 92

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1073 (W. 241)) ("the 2020 Regulations") govern the provision of pharmaceutical services as part of the National Health Service in Wales under Part 7 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c. 42).

These Regulations make amendments to the 2020 Regulations in relation to the terms of service for NHS pharmacists who provide pharmaceutical services, in particular to provide for the removal of certain supervision requirements to align with the Human Medicines Regulations 2012 (S.I. 2012/1916) and the Medicines Act 1968 (c. 67) (regulation 2(3)(e) and (g)) and set out a new requirement for the provision of workforce information to Local Health Boards (regulation 2(3)(h)).

These Regulations also make amendments to the 2020 Regulations to correct errors of a technical nature (regulation 2(2), (3)(a) to (d), (3)(f) and (4)).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the website at https://www.gov.wales.

2026 No. 92

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2026

Made	*23 March 2026*
Coming into force	*2 June 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 15, 80 and 203(9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 2 June 2026.

Amendment of the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(**3**) (interpretation), in paragraph (1), in the definition of "Electronic Prescription Service", for "Digital Health and Care Wales" substitute "NHS England".

(3) Schedule 5 (terms of service for NHS pharmacists who provide pharmaceutical services in particular by the provisions of drugs) is amended as follows—

(a) in paragraph 4 (dispensing services), in the Welsh language text—

(i) after "gyfarpar", for "offthalmig rhestredig" substitute "rhestredig offthalmig", and

(ii) after "feddyginiaeth", for "offthalmig restredig" substitute "restredig offthalmig",

(b) in the heading of paragraph 5A(**4**) (dispensing ophthalmic listed appliances and ophthalmic listed medicines ordered by qualifying optometrists), in the Welsh language text—

(**1**) 2006 c. 42.
(**2**) S.I. 2020/1073 (W. 241), amended by S.I. 2024/1196 (W. 196) and S.I. 2025/285 (W. 57); there are other amending instruments, but none are relevant.
(**3**) There are amending instruments, but none are relevant.
(**4**) Paragraph 5A was added by S.I. 2024/1196 (W. 196) and amended by S.I. 2025/285 (W. 57).

(i) after “cyfarpar”, for “offthalmig rhestredig” substitute “rhestredig offthalmig”, and

(ii) after “meddyginiaethau”, for “offthalmig rhestredig” substitute “rhestredig offthalmig”,

(c) in paragraph 5A(1), in the Welsh language text—

(i) after “gyfarpar”, for “offthalmig rhestredig” substitute “rhestredig offthalmig”, and

(ii) after “feddyginiaeth”, for “offthalmig rhestredig” substitute “restredig offthalmig”,

(d) in paragraph 5A(3), in the Welsh language text—

(i) after “gyfarpar”, for “offthalmig rhestredig” substitute “rhestredig offthalmig”, and

(ii) after “feddyginiaeth”, for “offthalmig rhestredig” substitute “restredig offthalmig”,

(e) in paragraph 5A, omit sub-paragraphs (4) and (5),

(f) in paragraph 7(2)(b)(ii) (urgent supply without a prescription), for “ETP service” substitute “Electronic Prescription Service”,

(g) in paragraph 9(**5**) (providing ordered drugs or appliances), omit sub-paragraphs (2) and (3), and

(h) after paragraph 39 (Welsh language) insert—

“Workforce reporting

40.—(1) An NHS pharmacist must provide such workforce data to the Local Health Board in whose pharmaceutical list the NHS pharmacist is included as the Local Health Board may from time to time require in connection with its functions.

(2) The workforce data must be recorded and submitted at such intervals during the financial year as are notified to the NHS pharmacist by the Local Health Board.

(3) For the purposes of this paragraph, “workforce data” means data, in the form and manner as required by the Local Health Board, relating to individuals engaged to provide pharmaceutical services by the NHS pharmacist.”

(4) Schedule 6 (terms of service for NHS appliance contractors who provide pharmaceutical services only by the provision of appliances) is amended as follows—

(a) in paragraph 4(2)(b) (dispensing of appliances), for “ETP service” substitute “Electronic Prescription Service”,

(b) in paragraph 6(2)(b) (urgent supply without a prescription), for “ETP service” substitute “Electronic Prescription Service”, and

(c) in paragraph 7(3)(c) (preliminary matters before providing appliances), for “ETP service” substitute “Electronic Prescription Service”.

(**5**) Paragraph 9(2) was amended by S.I. 2024/1196 (W. 196).

Jeremy Miles
Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
23 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839863-2

9 780348 398632